Cynllun y Bathodyn Glas: Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Darllenwch y daflen hon cyn defnyddio'r bathodyn a chofiwch ei chadw rhag ofn y bydd angen i chi edrych arni yn y dyfodol.

Am ymholiadau Bathodyn Glas cychwynnol/cyffredinol ffoniwch **0844 4630215**. Am ymholiadau sydd yn ymwneud â'ch cais penodol cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol.

Mae'r daflen hon ar gael mewn Braille, ar dâp sain ac ar CD. Gallwch archebu un o'r fformatau hyn drwy ffonio Llywodraeth Cymru ar **02920 826586**.

Os ydych chi'n sefydliad, mae taflen ar wahân ar gael ar Hawliau a Chyfrifoldebau ar wefan Llywodraeth Cymru: **www.cymru.gov.uk/ycynllunbathodynglas**

Oeddech chi'n gwybod eich bod yn gallu adnewyddu eich bathodyn ar-lein yn Directgov? Gallwch roi gwybod hefyd am unrhyw fathodynnau sydd wedi mynd ar goll neu wedi eu dwyn ac mae modd i chi ddiweddaru gwybodaeth bwysig. Ewch i **www.direct.gov.uk**

Cofnodwch wybodaeth ddefnyddiol yma fel ei bod ar gael bob amser

Rhif cyfresol y bathodyn	
Rhoddwyd gan (enw eich awdurdod lleol)	
Cyfeiriad swyddfa'r awdurdod lleol	
Rhif ffôn y swyddfa	
Dyddiad y daw'r bathodyn i ben	

ISBN digidol 978 0 7504 9684 1
Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru
Diweddarwyd Gorffennaf 2013
WG18840 / G/MH/4809 / 0713
© Hawlfraint y Goron 2013

Cynnwys

Tudalen

1. Eich cyfrifoldebau fel deiliad Bathodyn Glas **2**

Pwy sy'n cael defnyddio'r bathodyn 2
Sut i arddangos y bathodyn 3
Pryd i ddefnyddio cloc parcio 4
Awdurdod i archwilio'r bathodyn 4
Adnewyddu'r bathodyn 5
Dychwelyd y bathodyn 5
Os ydych chi'n colli eich bathodyn 6
Gyrwyr sydd â Bathodyn Glas 6
Mwy o gyngor a gwybodaeth 6

2. Ble gallaf i barcio? **7**

Ble gallwch chi barcio 7
Llefydd i edrych arnynt cyn parcio 9

Tudalen

Llefydd na allwch chi barcio ynddynt 10
Parcio diogel a chyfrifol 11

3. Bathodynnau ar gyfer sefydliadau **13**

Rheolau sy'n berthnasol i sefydliadau 13
Rheolau arbennig ar gyfer dychwelyd bathodyn sefydliad 14

4. Mwy o Wybodaeth **15**

Consesiynau Tollau 15
Teithio yn Llundain 15
Cynllun Tâl Atal Tagfeydd Canol Llundain 15
Teithio dramor 16

1 Eich cyfrifoldebau fel deiliad Bathodyn Glas

Diben y cynllun yw gwneud gwasanaethau lleol yn fwy hygyrch drwy ganiatáu i ddeiliaid bathodynnau barcio'n agos at y man y maent eisiau ei gyrraedd, naill ai fel teithiwr neu fel gyrrwr, ac nid galluogi pobl i barcio am ddim.

Eich cyfrifoldeb chi yw defnyddio'r Bathodyn Glas yn gywir. Ar gyfer eich defnydd chi'n unig y mae'r bathodyn a'i gonsesiynau. Mae'n drosedd i chi neu unrhyw un arall gamddefnyddio'r bathodyn, a gall gwneud hynny arwain at ddirwy o £1,000. Bydd sicrhau nad yw'r cynllun yn cael ei gamddefnyddio o fudd i ddeiliaid dilys y bathodyn, fel chi.

Os ydych chi'n defnyddio'r consesiynau parcio fel teithiwr, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y gyrrwr yn ymwybodol o'r holl reolau a nodir yn y daflen hon.

Mae'r bathodyn wedi'i fwriadu ar gyfer parcio ar y stryd yn unig. Mae yna reolau eraill yn berthnasol i feysydd parcio oddi ar y stryd, fel y rhai a ddarperir mewn ysbytai, awdurdodau lleol neu archfarchnadoedd.

Ni ddylech gopïo'r bathodyn na cheisio newid y manylion.

Pwy sy'n cael defnyddio'r bathodyn?

Bathodyn i'w ddefnyddio gennych chi yn unig yw hwn. Dim ond os ydych chi'n

teithio yn y cerbyd fel gyrrwr neu deithiwr y dylid arddangos y bathodyn, neu os oes rhywun yn eich casglu neu eich gollwng ac angen parcio yn y man casglu neu ollwng.

Peidiwch â chaniatáu i bobl eraill ddefnyddio'r bathodyn i wneud rhywbeth ar eich rhan, fel siopa neu gasglu rhywbeth i chi, oni bai eich bod chi'n teithio gyda nhw.

- Ni ddylech roi'r bathodyn i ffrindiau neu deulu fel y gallan nhw barcio am ddim, hyd yn oed pan fyddan nhw'n ymweld â chi.
- **Ni ddylech chi ganiatáu i bobl nad ydynt yn anabl fanteisio ar fuddion eich bathodyn tra rydych chi'n eistedd yn y car.**
- Mae camddefnyddio'r bathodyn yn drosedd. Mae hyn yn cynnwys pobl ar wahân i ddeiliad y bathodyn yn manteisio ar y consesiynau parcio a ddarperir dan y cynllun.

Sut i arddangos y bathodyn

Wrth ddefnyddio'r consesiynau parcio, **mae'n rhaid i chi arddangos y bathodyn** ar banel offer y cerbyd, lle gellir ei ddarllen yn glir drwy'r ffenestr flaen. Os nad oes panel offer yn nhu blaen eich cerbyd, mae'n rhaid i chi arddangos y bathodyn mewn lle y gellir ei ddarllen yn glir o'r tu allan i'r cerbyd. Dylai tu blaen y bathodyn wynebu at i fyny, gan ddangos symbol y gadair olwyn. **Ni ddylai'r llun fod yn weladwy drwy'r ffenestr flaen.**

Mae'n rhaid i chi sicrhau hefyd bod y manylion ar flaen y bathodyn yn glir bob

amser. Os na ellir eu darllen oherwydd eu bod wedi pylu neu wedi treulio, mae'n rhaid i chi ddychwelyd y bathodyn i'ch awdurdod lleol fel y gallant roi bathodyn newydd i chi. Gall arddangos bathodynnau anealladwy arwain at ddirwy parcio.

Gall arddangos bathodynnau mewn modd anghywir arwain at ddirwy parcio.

Pryd i ddefnyddio cloc parcio

Pan fyddwch chi'n parcio ar linellau melyn neu mewn mannau eraill gyda chyfyngiadau amser, mae angen i chi arddangos y cloc parcio glas i ddangos eich amser cyrraedd. Caiff y cloc ei anfon atoch gyda'r Bathodyn Glas.

Os ydych chi angen defnyddio cloc parcio, mae'n rhaid i chi ei arddangos ar banel offer y cerbyd, fel y gellir gweld yr amser yn glir drwy'r ffenestr flaen. Dylid gosod y cloc i ddangos y cyfnod chwarter awr y gwnaethoch chi gyrraedd. Os nad oes panel offer yn nhu blaen eich cerbyd, mae'n rhaid



Cloc parcio glas

i chi arddangos y cloc mewn lle y gellir ei ddarllen yn glir o'r tu allan i'r cerbyd.

Awdurdod i archwilio bathodyn

Mae gan swyddogion yr heddlu, wardeiniaid traffig, swyddogion parcio a swyddogion gorfodi sifil yr awdurdod i archwilio bathodynnau. Dylai'r bobl hyn ddangos cerdyn adnabod gyda'u llun arno i brofi mai'r bobl hynny ydyn nhw mewn gwirionedd. Os oes unrhyw un o'r bobl hyn yn gofyn am gael gweld y bathodyn, mae'n rhaid i chi ei ddangos iddyn nhw. Os na wnewch chi, byddwch chi'n torri'r gyfraith ac fe allech gael dirwy o hyd at £1,000.

Pan ddaw eich bathodyn i ben

Dylech wneud cais am fathodyn newydd gan eich awdurdod lleol rai wythnosau cyn iddo ddod i ben. Gallwch gyflwyno cais am fathodyn ar-lein yn **www.direct.gov.uk**. Os ydych chi'n rhoi eich rhif ffôn symudol neu eich cyfeiriad e-bost wrth wneud cais, gellir anfon negeseuon atgoffa atoch drwy'ch e-bost neu'ch ffôn symudol. **Peidiwch â defnyddio'r bathodyn os yw wedi dod i ben neu fe allech gael dirwy.**

Dychwelyd y bathodyn

Mae'n rhaid i chi ddychwelyd y bathodyn i'ch awdurdod lleol os yw'r bathodyn wedi dod i ben, neu os

- yw eich cyflwr meddygol neu eich gallu i symud yn gwella ac nad ydych chi'n gymwys mwyach;
- ydych wedi cael bathodyn arall yn lle un sydd wedi mynd ar goll neu wedi'i ddwyn a bod yr un gwreiddiol yn dod i'r golwg (yna mae'n rhaid dychwelyd y bathodyn gwreiddiol);
- yw'r bathodyn yn cael ei ddifrodi neu'n pylu ac yn annarllenadwy;
- nad oes angen y bathodyn bellach, er enghraifft, os ydych yn gaeth i'ch cartref.

Nodwch hefyd y dylid dychwelyd y bathodyn i'r awdurdod lleol os yw deiliad y bathodyn yn marw.

Os ydych chi'n parhau i arddangos y bathodyn pan nad oes arnoch ei angen bellach gallech gael dirwy o hyd at £1,000. Mae'r bathodyn yn parhau'n eiddo i'r awdurdod lleol sy'n ei roi i chi. Gallan nhw ofyn i chi ddychwelyd y bathodyn os yw'n cael ei gamddefnyddio.

Os ydych chi'n colli eich bathodyn

Dylech rhoi gwybod i'r heddlu ar unwaith os ydych chi'n colli eich bathodyn neu os

yw'ch bathodyn yn cael ei ddwyn. Dylech hefyd gysylltu â'ch awdurdod lleol i roi gwybod iddynt fod eich bathodyn ar goll neu wedi'i ddwyn, gan roi rhif trosedd iddynt. Bydd eich awdurdod lleol yn trefnu bathodyn newydd ar eich cyfer. Gall Awdurdodau Lleol, yn ôl eu disgresiwn, godi ffi o hyd at £10.00 am y gwasanaeth hwn.

Gyrwyr sydd â Bathodyn Glas

Os ydych chi'n yrrwr a bod eich anabledd yn debygol o effeithio ar eich gallu i yrru (hyd yn oed os yw eich car wedi'i addasu), mae'r gyfraith yn datgan bod yn rhaid i chi ddweud wrth yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Nid yw cael Bathodyn Glas yn golygu nad oes raid I chi dalu treth ffordd, ond efallai y gallwch gael eich eithrio os ydych chi'n bodloni meini prawf penodol eraill y DVLA. Am fwy o wybodaeth gallwch gysylltu â'r DVLA ar **0300 790 6802**, neu ysgrifennwch at y DVLA, Abertawe, SA99 1TU neu ewch i **www.direct.gov.uk/cy/motoring/index.htm** am fanylion.

Mwy o gyngor a gwybodaeth

Dylech roi gwybod i'ch awdurdod lleol bob tro os

- oes angen adnewyddu'r bathodyn;
- yw'r bathodyn ar goll, wedi'i ddwyn neu wedi'i ddifrodi;
- ydych yn newid cyfeiriad;
- yw eich cyfenw'n newid am unrhyw reswm.

Mae cynllun y Bathodyn Glas yn cael ei weinyddu a'i orfodi gan eich awdurdod lleol a dylech gysylltu â nhw yn y lle cyntaf bob amser am fwy o wybodaeth.

Gall y ddolen ganlynol eich helpu chi i ddod o hyd i'ch cyngor lleol – **http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/localauthorities/?lang=cy**

2 Ble gallaf i barcio?

Os nad ydych chi'n gyrru eich hun, mae'n bwysig rhannu'r wybodaeth hon gydag unrhyw un a fydd yn eich cludo fel teithiwr.

Ble y gallwch chi barcio

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r consesiynau parcio sydd ar gael i chi fel deiliad Bathodyn Glas. Eto i gyd, mae'n rhaid i chi edrych ar yr arwyddion bob amser i weld beth yw'r rheolau wrth barcio.

Lleoliad	Amodau
Llinellau melyn	Gall deiliaid bathodynnau barcio ar linellau melyn dwbl neu sengl am hyd at deirawr, ond nid lle ceir cyfyngiadau llwytho a dadlwytho – fel y dangosir gan linellau melyn ar ymyl y a/neu arwyddion ar blatiau. (Efallai y byddwch am edrych a yw awdurdod lleol penodol wedi dewis eithrio deiliaid Bathodynnau Glas o'r cyfyngiad hwn.) **Nid oes gennych hawl i barcio ar linellau melyn mewn meysydd parcio oddi ar y stryd.**

Lleoliad	Amodau
Llinellau melyn	**Mae'n rhaid i chi arddangos y Bathodyn Glas** a'r cloc parcio glas sy'n dangos y cyfnod chwarter awr y gwnaethoch chi gyrraedd. Mae'n rhaid i chi ddisgwyl am o leiaf awr ar ôl cyfnod parcio blaenorol cyn y gallwch barcio'r un cerbyd yn yr un ffordd neu yn yr un rhan o'r ffordd ar yr un diwrnod.
Peiriannau talu am barcio 'ar y stryd' a pheiriannau talu ac arddangos	Mae rhai awdurdodau lleol yn caniatáu i ddeiliaid bathodyn glas barcio am ddim am faint bynnag o amser sydd ei angen. Nid yw awdurdodau lleol eraill wedi mabwysiadu'r polisi hwn. **Dylech gysylltu â'r awdurdod perthnasol cyn parcio er mwyn osgoi dirwy bosibl.** **Mae'n rhaid i chi arddangos y Bathodyn Glas.**
Llefydd parcio anabl 'ar y stryd' (Arwyddion gyda symbol cadair olwyn)	Gallwch barcio am ddim a heb gyfyngiad amser oni bai bod arwyddion yn nodi'n wahanol (edrychwch ar arwyddion lleol am wybodaeth). **Mae'n rhaid i chi arddangos y Bathodyn Glas.** Ceisiwch ddefnyddio'r llefydd hyn bob amser yn hytrach na pharcio ar linellau melyn.

Llefydd i edrych arnynt cyn parcio

Mae nifer o gyfyngiadau a chynlluniau parcio lleol y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt. Dyma restr o'r llefydd hynny a'r cyfyngiadau parcio sydd ar waith. Os nad ydych yn sicr, gofynnwch i'r awdurdod perthnasol cyn i chi deithio.

Lleoliad	**Amodau**
Meysydd parcio oddi ar y stryd (fel meysydd parcio archfarchnadoedd, ysbytai neu awdurdodau lleol)	Dylai gweithredwyr meysydd parcio oddi ar y stryd ddarparu gofodau parcio ar gyfer pobl anabl. Fodd bynnag, perchennog y maes parcio fydd yn penderfynu a gaiff deiliaid bathodynnau barcio am ddim. **Peidiwch â chymryd yn ganiataol y cewch chi barcio am ddim bob amser.**
Canol trefi lle mae cynlluniau lleol ar waith	Edrychwch ar arwyddion lleol am wybodaeth.
Ardaloedd parcio ar y stryd lle y gall pob gyrrwr barcio am ddim am gyfnod cyfyngedig yn unig	Gall deiliaid bathodynnau barcio am gyfnod amhenodol oni bai bod arwyddion yn nodi'n wahanol. Edrychwch ar yr arwyddion cyn parcio. Os oes cyfyngiad amser, cofiwch arddangos y cloc parcio glas a'i osod i ddangos y cyfnod chwarter awr y gwnaethoch chi gyrraedd.

Lleoliad	Amodau
Systemau ffyrdd mewn meysydd awyr	Cysylltwch â'r maes awyr ymlaen llaw i holi am y trefniadau parcio.
Ffyrdd preifat	**Peidiwch â pharcio oni bai bod gennych ganiatâd y perchennog (perchnogion).**

Llefydd na allwch chi barcio ynddynt

Nid yw'r cynllun yn weithredol ar ffyrdd preifat nac mewn meysydd parcio oddi ar y stryd. Eto i gyd, gallai rhai gweithredwyr ddarparu mannau ar gyfer pobl ag anableddau. Dylech ddarllen yr arwyddion hyn er mwyn gweld pa gonsensiynau sydd ar gael, ac a oes yn rhaid i ddeiliaid bathodyn glas dalu.

Nid yw'r Bathodyn Glas yn drwydded i barcio yn unrhyw le. Fel defnyddwyr ffyrdd eraill, mae'n rhaid i chi ufuddhau i reolau'r ffordd, fel y nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Dyma restr o'r llefydd na ddylech barcio ynddynt.

- Llefydd lle mae llwytho a dadlwytho wedi'u gwahardd, a nodir fel arfer gan farciau melyn ar ymyl y palmant. Mae arwyddion ar ochr y ffordd yn arddangos amseroedd gweithredu mannau llwytho.
- Llefydd parcio sydd wedi'u cadw ar gyfer defnyddwyr penodol, fel deiliaid hawlenni neu fannau llwytho. (Fodd bynnag, efallai y byddwch am edrych a yw awdurdod lleol penodol wedi dewis



Ni chaniateir llwytho 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos, am o leiaf 4 mis yn olynol

Ni chaniateir llwytho am unrhyw gyfnod byrrach. Mae'r saeth yn dangos lleoliad a chyfeiriad y gwaharddiad

eithrio deiliaid Bathodynnau Glas o'r cyfyngiadau hyn).

- Croesfannau i gerddwyr (croesfannau sebra, pelican, twcan a phâl), gan gynnwys mannau sydd wedi'u marcio â llinellau igam ogam.
- Clirffyrdd (dim stopio).
- Clirffordd safle bws yn ystod ei oriau gweithredu.
- Clirffordd drefol o fewn ei oriau gweithredu. Gallwch godi teithwyr yma neu eu gollwng. Ni chaniateir parcio.
- Ar farciau 'cadwch yn glir' ger ysgol yn



ystod yr oriau a ddangosir ar arwydd melyn dim stopio.

- Lonydd bysiau, tramiau neu feicio. Nid oes gan ddeiliaid bathodynnau hawl i yrru mewn lonydd bysiau yn ystod eu horiau gweithredu.
- Pan fo llinellau gwyn dwbl ar ganol y ffordd (hyd yn oed os yw un o'r llinellau'n doredig).
- Mannau parcio lle mae'r peiriant talu wedi'i atal neu ar adegau pan waherddir defnyddio'r peiriant.
- Pan fo cyfyngiadau parcio dros dro ar waith, er enghraifft mannau lle ceir conau dim aros.

Parcio diogel a chyfrifol

Peidiwch â pharcio lle gallai hynny beryglu a rhwystro cerddwyr neu ddefnyddwyr

ffyrdd eraill neu beri anghyfleustra iddynt.

Mae enghreifftiau o barcio peryglus neu rwystrol yn cynnwys y canlynol, er bod enghreifftiau eraill i'w cael hefyd:

- mynedfeydd ysgol, safleoedd bws, ar gornel, neu ger ael bryn neu bont grom;
- parcio gyferbyn â chyffordd neu o fewn 10 metr (32 troedfedd) iddi, ac eithrio mewn lle parcio swyddogol;
- lle byddai hynny'n gwneud y ffordd yn gul, fel gerllaw ynys draffig neu waith ffordd;
- lle byddai hynny'n arafu llif y traffig, fel mewn rhannau cul o'r ffordd neu greu rhwystr o flaen mynedfeydd cerbydau;
- lle mae cerbydau'r gwasanaeth brys yn stopio neu fynedfeydd y gwasanaethau brys, fel mynedfeydd ysbytai;
- lle mae'r palmant wedi'i ostwng neu'r ffordd wedi'i chodi i helpu defnyddwyr cadair olwyn; ac
- ar balmant, oni bai bod arwyddion yn caniatáu hynny.

Nid yw'r Bathodyn Glas yn drwydded i barcio yn unrhyw le. Os byddwch yn parcio mewn man lle y byddai'n achosi rhwystr neu berygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd gallech gael eich dirwyo neu gallai eich cerbyd gael ei symud.

COFIWCH

Os nad ydych chi'n gyrru eich hun, dylech chi rannu'r wybodaeth ar y daflen hon gyda'r unigolyn a fydd yn eich cludo fel teithiwr.

Nid yw'n gyfreithlon i glampio olwynion cerbyd ar briffordd gyhoeddus ('ar y stryd') am droseddau parcio os oes Bathodyn Glas dilys wedi'i arddangos yn briodol arno, yn unol â rheolau'r cynllun. Mae parcio mewn llefydd gwaharddedig neu lle byddai hynny'n peryglu neu'n rhwystro defnyddwyr eraill y ffyrdd yn drosedd, a gall arwain at ddirwy parcio. Mae'n bosibl y byddech yn cael eich erlyn, y byddai eich car yn cael ei lusgo i ffwrdd, a'ch bathodyn yn cael ei gymryd oddi arnoch.

3 Bathodynnau ar gyfer sefydliadau

Gall sefydliadau sy'n cludo ac yn gofalu am bobl anabl a fyddai'n gymwys am Fathodyn Glas ymgeisio am Fathodyn Glas sefydliadau drwy eu hawdurdod lleol. Gall y sefydliad ddefnyddio'r bathodyn hwn wrth gludo pobl anabl a fyddai'n gymwys am Fathodyn Glas eu hunain. Ni chaniateir defnyddio'r bathodyn ar adegau eraill.

Rheolau sy'n berthnasol i sefydliadau

Bydd gan fathodyn sefydliadau stamp neu logo'r sefydliad ar gefn y bathodyn, yn hytrach na llun. Dylid sicrhau nad yw'r ochr hon yn weladwy wrth arddangos y bathodyn.

Dim ond pan fo pobl a fyddai'n gymwys am Fathodyn Glas eu hunain yn cael eu cludo y caniateir defnyddio bathodynnau sefydliadau. Dim ond pan fo gweithwyr cyflogedig y sefydliad yn gollwng neu gasglu pobl anabl cymwys o'r fan lle mae'r cerbyd wedi'i barcio y dylid arddangos y bathodyn.

Ni ddylech fyth gopïo'r bathodyn na cheisio newid y manylion.

Mae'r bathodyn yn parhau'n eiddo i'r awdurdod lleol. Gallant ofyn i bobl ddychwelyd y bathodyn os yw'n cael ei gamddefnyddio.

Mae angen sicrhau bod holl weithwyr cyflogedig y sefydliad sy'n gyfrifol am gludo pobl anabl yn ymwybodol o reolau'r cynllun.

Mae'n drosedd i unrhyw un gamddefnyddio'r bathodyn, a gallai gwneud hynny arwain at ddirwy o hyd at £1,000.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y bathodyn sefydliad ar **www.cymru.gov.uk**

Rheolau arbennig ar gyfer dychwelyd bathodyn sefydliad

Yn ogystal â'r cyngor sydd ar gael ar dudalen 5 y daflen hon, mae'n rhaid dychwelyd bathodyn sefydliad i'r awdurdod a roddodd ef os:

- nad yw'r sefydliad yn bodoli mwyach; neu
- nad yw'r sefydliad bellach yn gofalu am bobl a fyddai'n gymwys am Fathodyn Glas eu hunain.

4 Mwy o Wybodaeth

Consesiynau tollau, teithio yn Llundain, cynllun tâl atal tagfeydd canol Llundain a theithio dramor.

Consesiynau Tollau

Mae'n bosibl y gellir eithrio deiliaid Bathodynnau Glas rhag talu tollau ar rai croesfannau afonydd.

Mae manylion y consesiynau ar gael ar wefan Directgov yn **www.direct.gov.uk/cy/DisabledPeople/MotoringAndTransport/Bluebadgescheme/DG_4001061CY**

Teithio yn Llundain

Nid yw'r cynllun Bathodyn Glas yn weithredol yn llawn mewn rhai rhannau o Ganol Llundain.

Os ydych chi'n bwriadu ymweld â Chanol Llundain, mae angen i chi gael mwy o wybodaeth am barcio cyn teithio. Cysylltwch â'r fwrdeistref berthnasol yn Llundain neu ewch i **www.bluebadgelondon.org.uk** am wybodaeth.

Cynllun Tâl Atal Tagfeydd Canol Llundain

Fel deiliad bathodyn, nid oes raid i chi dalu'r Tâl Atal Tagfeydd. I fod yn gymwys am ostyngiad 100%, mae'n rhaid i chi gofrestru yn y lle cyntaf gyda Transport for London a thalu ffi cofrestru o £10. Mae

angen i chi wneud cais o leiaf 10 diwrnod cyn eich taith.

Mae mwy o wybodaeth i ddeiliaid Bathodynnau Glas ar **www.tfl.gov.uk/assets/downloads/blue-badge-holders-guide.pdf** neu drwy ffonio **0845 900 1234**

Teithio dramor

Gallwch ddefnyddio'r bathodyn wrth deithio yn yr Undeb Ewropeaidd ond mae'r consesiynau'n amrywio. Os ydych chi'n ansicr, ceisiwch gael gafael ar wybodaeth leol cyn teithio i rywle newydd.

Caiff y Bathodyn Glas ei gydnabod ledled yr **Undeb Ewropeaidd (EU)**. Mae hyn yn golygu y gallwch chi fanteisio ar y consesiynau parcio sydd ar gael yn holl wledydd eraill yr UE.

Cofiwch y gallai'r consesiynau a ddarperir yng ngwledydd eraill yr UE fod yn wahanol i'r rhai a geir yn y DU.

Gan y gall consesiynau mewn gwledydd eraill yn yr UE newid dros amser, rydym yn eich cynghori i edrych pa gonsesiynau sydd ar gael cyn teithio.

Ar hyn o bryd nid oes trefniadau ar gael ichi allu defnyddio'r bathodynnau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, mewn gwledydd fel UDA, Canada, Awstralia neu Seland Newydd er y gallent fod yn barod i gydnabod y Bathodyn Glas. Rydym yn eich cynghori i edrych pa gonsesiynau sydd ar gael cyn i chi deithio i wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.fiadisabledtravellers.com**